**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Cynllunio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 4ydd Gorffennaf, 2017 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor R. Edwards (Chairman)
County Councillor P. Clarke (Vice Chairman)

County Councillors: J.Becker, D. Blakebrough, L.Brown, A.Davies, D. Dovey, D. Evans, M.Feakins, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, P. Murphy, M. Powell and A. Webb

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Philip Thomas | Development Services Manager |
| Andrew Jones | Senior Development Management Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Hysbysodd Y Cynghorydd Sir M. Feakins y Pwyllgor ei fod wedi trafod ceisiadau DC/2017/00159 a DC/2017/00188 mewn cyfarfod o Gyngor Tref Trefynwy cyn iddo gael ei ethol fel Cynghorydd Sir ac felly gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan na phleidleisio ar y ceisiadau.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 6ed Mehefin 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **CAIS DC/2016/00537 - DILEU AMODAU 10, 11 A 12 (CYFYNGU GOSODIAD GWYLIAU) CANIATÂD CYNLLUNIO DC/2014/00441. BYTHYNNOD HAZEL AC OAK, FFERM WERNDDU, HEOL ROSS, LLANDEILO BERTHOLAU, Y FENNI.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd Aelodau wedi codi pryderon yn yr archwiliad safle ynghylch y diffyg gwybodaeth farchnata oedd ar gael mewn perthynas â'r cais hwn a bod angen ymarfer marchnata mwy cynhwysfawr i asesu a oedd galw am lety wedi'i osod yn ystod gwyliau.

Cynigiwyd, felly, gan Y Cynghorydd Sir M. Feakins ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir R.J. Higginson i ni fod o blaid gohirio cais DC/2016/00537 I gyfarfod yn y dyfodol i ganiatáu i'r Swyddogion ofyn am ymarfer marchnata mwy cynhwysfawr gyda'r bwriad o asesu a oes galw am lety wedi'i osod yn ystod gwyliau.

.

Wedi pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid gohirio | - | 15 |
| Yn erbyn gohirio | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom i ni fod o blaid gohirio cais DC/2016/00537 i gyfarfod yn y dyfodol i ganiatáu i'r Swyddogion ofyn am ymarfer marchnata mwy cynhwysfawr gyda'r bwriad o asesu a oes galw am lety wedi'i osod yn ystod gwyliau.

4. **CAIS C/2017/00159 - DWY ANNEDD AR WAHÂN A LÔN MYNEDIAD YN YMESTYN Y LÔN BRESENNOL. CAE ELGA, HEOL HIGHFIELD, OSBASTON, TREFYNWY, NP25 3HR.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y pum amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106 mewn perthynas â chyfraniad at dai fforddiadwy.

Amlinellodd yr Aelod Lleol dros Dixton gydag Osbaston, a fynychai'r cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd, y pwyntiau canlynol:

**Llifogydd a Draeniad**

- Mae'r ardal mewn perygl o orlifoedd sydyn, ynghyd â gorlifo yn y gaeaf o ganlyniad i'r pridd trwm cleiog a goledd y llethr.
- Mae gan yr Aelod Lleol brofiad personol o orlifoedd sydyn.
- O blith gwrthwynebwyr Heol Highfield, dim ond un gwrthwynebydd sydd yn uwch i fyny na Chae Elga, gyda phum gwrthwynebydd islaw'r eiddo. Mae pob un o'r gwrthwynebwyr hyn wedi crybwyll y draenio a'r llifogydd.
- Ni wrthwynebodd yr anheddau ar Heol Agincourt, sy'n edrych dros y safle hwn, y cais.
- Efallai na allai system ddraenio gynaliadwy (SUDS) ymdopi ag effeithiau gorlif haf sydyn.
- Mae gan y tai modern sy'n ffinio â'r safle broblemau draenio cyfredol.
- Efallai bod angen arolygu'r pridd cyn cymeradwyo'r cais i asesu hyfywedd SUDS.

**Carthion**

- Mae preswylwyr lleol wedi hysbysu'r Aelod Lleol fod pibell garthion sy'n rhedeg dan Heol Highfield yn is na'r safonau mabwysiadu, a wrthododd Dŵr Cymru ei mabwysiadu'n wreiddiol, ond sydd wedi'i mabwysiadu'n ddiweddarach.

- Gan mai tanc carthion sydd yng Nghae Elga, a'r tai newydd arfaethedig yn is na lefel yr heol, mynegwyd pryder efallai na allai'r system garthion bresennol allu ymdopi â'r tair annedd newydd ynghlwm wrthi.

- Mae'r tanc carthion wedi torri yn y gorffennol gan beri problemau i nifer o anheddau, am gyfnod o amser.

- Byddai angen system bwmpio ar gyfer yr anheddau newydd. Gallai methiant mecanyddol posib yn y dyfodol arwain at ryddhau carthion fyddai'n effeithio ar anheddau lleol.

**Graddfa'r Datblygiad**

- Nid yw preswylwyr lleol yn ffafrio graddfa arfaethedig y datblygiad.

- Symud coed, agosatrwydd lleiniau o bersbectif parcio, symud swmp priodol o ofod amwynder ar gyfer adeilad ar raddfa Cae Elga. Byddai preswylwyr yn ei chael yn fwy derbyniol petai'r ymgeisydd yn dychwelyd â chais am un annedd yn hytrach na dwy annedd.

Mynychodd Ms. K. Potts, yn cynrychioli gwrthwynebwyr i'r cais, y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau canlynol:

- Mae Heol Highfield yn serth, yn gul a heb balmant.

- Mae byw'n iach yn cymell cerdded.

- Mae rhieni â phlant ifanc a choetsis yn cerdded i'r ysgol gynradd leol, mae plant hŷn yn cerdded i'r tair ysgol uwchradd ac mae pobl oedrannus yn cerdded i'r safle bws lleol, yn cadw'n heini er mwyn helpu i leihau llygredd traffig drwy beidio â defnyddio cerbydau.

- Mae'r lleoliad eisoes yn beryglus i gerddwyr, yn enwedig ar oriau brig amserau ysgol a gwaith.

- Mae traffig sylweddol yn teithio lan a lawr y rhiw, yn aml yn teithio ar gyflymder gormodol ar yr amserau brig hyn.

- Bydd nifer y symudiadau traffig ychwanegol a gynhyrchir yn ddyddiol gan y lleiniau parcio newydd a'r nifer o gerbydau ynghlwm wrth ddatblygiad y safle yn gwaethygu'r posibilrwydd o berygl.

- Bydd gorddatblygu'r safle'n peryglu bywydau.

- Mae'r tir o gwmpas Clôs Highfield yn cynnwys clai trwm. Mae dŵr glaw yn rhedeg lawr fel dŵr wyneb o Heol Agincourt dros y caeau ac i mewn i Gae Elga, sy'n sugno i fyny'r dŵr dros ben. Mae peth dŵr yn rhedeg i ffwrdd drwy gyfrwng y

gerddi a lawr Heol Highfield gan ddwyn gweddillion gydag ef sydd wedi blocio cwteri a draeniau.

- Mae'r dŵr hefyd yn llanw ffos y cae sy'n rhedeg ar ben yr ardd yng Nghae Elga drwy'r tair gardd agored a lawr dan Heol Highfield os gall y draen ymdopi â'r holl ddŵr.

- Ymddengys y bydd un o'r anheddau arfaethedig wedi'i leoli'n agos at ffos y cae. Mynegwyd pryder y gallai'r eiddo hwn fod mewn perygl o orlifo oherwydd y ffos a'r bwriad i gwympo'r llethr.

- Mae'r preswylwyr presennol eisoes wedi profi garejis yn gorlifo a dŵr yn cronni ar y lawntydd cefn.

- Mae nifer o bistyll yn yr ardal. Yn ystod tywydd gwlyb, gwthiwyd dŵr yng ngardd y gwrthwynebydd o dan bwysau i'r wyneb ac i'r aer.

- Gyda gorddatblygu arfaethedig y llai, bydd rhan fawr o ardd Cae Elga yn diflannu dan wyneb caled naill ai gan dai, parcio ceir, llawr caled neu dramwyfa estynedig.

- Bydd angen i'r dŵr na chaiff ei amsugno gan y tir redeg i ffwrdd i rywle ond ni all y tir ymdopi â'r broblem hon nawr. Bydd datblygiad yn y dyfodol dim ond yn gwaethygu'r sefyllfa.

- Mae'r datblygiad arfaethedig yn gosod y tai sydd yno eisoes mewn perygl rhag llifogydd.

- Yn ôl y cynllun, ni ddangosir yr holl goed a effeithir gan y datblygiad arfaethedig ac nid yw'n glir pa goed gaiff eu cadw.

- Mae'r coed yn rhai collddail felly fe gwtogir eu cysgod yn ystod rhannau o'r flwyddyn.

- Amgylchynir yr ardd ar ddwy ochr gan gloddiau caeau aeddfed. Mae'r anheddau arfaethedig i'w lleoli'n agos i'r cloddiau a'r coed hyn gan eu gosod dan bwysau yn ystod ac wedi cwblhau'r datblygiad.

- Bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ecoleg yr ardd a'r ardal o gwmpas.

Mynychodd Mr. B. Spencer, yn cynrychioli'r ymgeisydd, y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau canlynol:

- Gall pob safle brofi gorlifoedd haf sydyn.

- Os gweithreda'r safle fel 'ysbwng' yna ni ddylai llifogydd fod yn broblem.

- Os caiff yr anheddau arfaethedig eu hadeiladu ar y safle, bydd angen i'r holl ardaloedd allanol, gan gynnwys parcio fod yn hydraidd, gan fod y Safon Brydeinig yn gwneud hyn yn ofynnol.

- Rheolir y carthion gan Ddŵr Cymru. Mae digon o le i anheddau newydd gael eu cysylltu.

- Mae'r system bwmpio i godi carthion o lefel is i lefel uwch wedi hen ennill ei thir ac fe'i defnyddir nawr mewn amgylchiadau adeiladu.

- Nid yw'r orsaf bwmpio yn Heol Osbaston Road erioed wedi methu.

- Parthed graddfa'r anheddau arfaethedig, nid yw'r mater hwn dan ystyriaeth fel rhan o'r cais. Mae'r cais hwn yn cyfeirio at yr egwyddor o ddatblygu a mynediad. Mae'r cynllun yn dangos beth ellid ei osod ar y safle.

- Mae'r cynllun yn dangos bod yr holl goed ar y safle'n mynd i gael eu hamddiffyn.

- Mae'r adran briffyrdd wedi dweud na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn andwyol.

- Parthed y coed collddail a'r cwmpas cloddiau, mae'r datblygiad yn agos ond i ffwrdd o ledaeniad gwreiddiau'r coed ac fe'i dylunnir i safon coedyddiaeth.

Wedi ystyried yr adroddiad a'r safbwyntiau a fynegwyd, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Ni fydd effaith weledol ar anheddau cyfagos oherwydd y sgrinio naturiol sydd yno eisoes.

- Ni fydd dau eiddo ychwanegol yn gwaethygu unrhyw broblemau traffig.

- Ystyriai rhai Aelodau bod lle i osod dwy annedd ar y safle.

- Gellid ychwanegu amod yn mynnu bod manylion draenio dŵr wyneb yn cael eu cyflwyno fel rhan o faterion a gedwir yn ôl.

- Bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli ar safle tir llwyd.

- Mae gerddi'n ardaloedd gwerthfawr iawn i'w cadw gan eu bod yn gwella ansawdd aer, yn lleihau perygl llifogydd ac yn darparu noddfa ar gyfer bywyd adar.

- Teimlai rhai Aelodau bod angen canllawiau ynghylch adeiladu eiddo o fewn gerddi.

- Mynegodd rhai Aelodau bryder bod dau eiddo a leolwyd ar y safle hwn yn enfawr wrth ystyried y seilwaith domestig yn amgylchynu'r datblygiad.

- Cydnabuwyd bod angen am dai yn Sir Fynwy, yn enwedig, yr angen am dai fforddiadwy.

- Mynegwyd pryder y bydd un o'r anheddau arfaethedig yn cael ei leoli mewn ardal o berygl isel/canolig o lifogydd.

- Cyfeiriwyd ystyried polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mewn perthynas â llifogydd.

- Mynegwyd pryder ynghylch graddfa'r datblygiad ac y byddai un annedd yn fwy priodol i ddarparu mwy o dir i amsugno'r dŵr wyneb.

- Nodwyd bod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl haeddiant. Caiff gerddi yng Nghymru'u hystyried yn safleoedd tir llwyd yn darparu cyfle iddynt gael eu datblygu mewn modd cynaliadwy.

- Ymgynghorwyd â'r Adran Briffyrdd ynghylch y dŵr wyneb ac nid yw wedi gwrthwynebu'r cais. Awgrymwyd amod i sicrhau bod y dŵr sy'n rhedeg i ffwrdd yn ddŵr tir âr fel na wneir y sefyllfa'n waeth nag yw eisoes.

- Mae amod tirwedd y bydd angen ei gymeradwyo drwy gyfrwng materion a gedwir yn ôl gan ganiatáu mwy o blannu, yn enwedig ar hyd ymylon y safle, a fydd yn gymorth i gynyddu lefelau amsugno ar y safle.

- Gellid ychwanegu amod ynghylch yr isaf o'r ddau eiddo arfaethedig yn gofyn i'r asiant leihau graddfa'r paramedrau ar gyfer mwyafswm uchder crib y safle i leiafswm o un metr, gan ei osod yn ddyfnach i mewn i'r llethr os yw'n angenrheidiol i gyflawni hynny.

- Gellid delio â dŵr yn rhedeg oddi ar dir âr yng nghyfnod materion a gedwir yn ôl drwy osod system wanhau i ddal unrhyw ddŵr yn rhedeg i ffwrdd na ddelid drwy gyfrwng yr wynebau hydraidd.

- Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Sir Murphy ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir M. Powell bod cais DC/2017/00159 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y pum amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106 mewn perthynas â chyfraniad tai fforddiadwy. Hefyd, bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu yn mynnu bod manylion draenio dŵr wyneb yn cael eu cyflwyno fel rhan o faterion a gedwir yn ôl, i gael y dŵr tir âr i redeg i ffwrdd drwy gyfrwng wyneb hydraidd a system wanhau. Yn ychwanegol yr asiant i leihau graddfa'r paramedrau ar gyfer mwyafswm uchder crib Llain A i leiafswm o un metr, gan ei osod yn ddyfnach i mewn i'r llethr os yw'n angenrheidiol i gyflawni hynny a dylid cytuno hyn drwy gyfrwng Panel Dirprwyo cyn cyflwyno'r penderfyniad.

Y Cynghorydd Sir L. Brown gynigiodd ein bod o blaid gwrthod cais DC/2017/00159 ar sail y ffaith bod y safle'n dueddol o orlifo ac y bydd dau eiddo ychwanegol ar y safle yn gwaethygu'r sefyllfa yng nghyd-destun llifogydd. Eiliodd Y Cynghorydd Sir G. Howard y cais.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor bleidleisio ar y cais a bod y Pwyllgor o blaid gwrthod y cais.

Wedi pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid gwrthod | - | 15 |
| Yn erbyn gwrthod | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Ni chariwyd y cynnig i'r Pwyllgor fod o blaid gwrthod y cais.

- Penderfynasom fod cais DC/2017/00159 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y pum amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106 mewn perthynas â chyfraniad tai fforddiadwy. Hefyd, bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu yn mynnu bod manylion draenio dŵr wyneb yn cael eu cyflwyno fel rhan o faterion a gedwir yn ôl, i gael y dŵr tir âr i redeg i ffwrdd drwy gyfrwng wyneb hydraidd a system wanhau. Yn ychwanegol yr asiant i leihau graddfa'r paramedrau ar gyfer mwyafswm uchder crib Llain A i leiafswm o un metr, gan ei osod yn ddyfnach i mewn i'r llethr os yw'n angenrheidiol i gyflawni hynny a dylid cytuno hyn drwy gyfrwng Panel Dirprwyo cyn cyflwyno'r penderfyniad.

**5. <u>CAIS DC/2017/00188 - DWY ANNEDD DDEULAWR AR WAHÂN YNG NGARDD GEFN ROSEBROK. ROSEBROOK, WATERY LANE, TREFYNWY, NP25 3AT.</u>**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar yr amod ychwanegol, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr ynghylch amddiffyn coed. Hefyd, yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy oddi-ar-y-safle drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106.

.

Wrth nodi manylion y cais, cynigiwyd gan Y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir R. J. Higginson fod cais DC/2017/00188 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar amod ychwanegol, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr ynghylch amddiffyn y coed. Hefyd, yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106.

Wedi pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 11 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 2 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2017/00188 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar amod ychwanegol, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr ynghylch amddiffyn coed. Hefyd, yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy oddi-ar-y-safle drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106.

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Pwyllgor Cynllunio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 4ydd Gorffennaf, 2017 at 2.00 pm

6. **<u>CAIS DC/2017/00257 - CADW BLOC STABAL UN LLAWR GYDA CHLADIN COED A DAU GYNHWYSYDD YN SEFYLL AR BEN EU HUNAIN; CLWYDI DUR A FFENSIO NEWYDD; ADEILADU DAU STABAL NEWYDD. BLACKWALL STUD, STOKE BARN, MAGWYR.</u>**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y pedwar amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Wrth nodi manyldeb y cais, ystyriwyd y dylai amod 3 gael ei ddiwygio i atal y cyfeiriad at y clwydi'n cael eu symud nôl bum metr, fel y maent eisoes. Dylai Amod 3 gael ei ddiwygio i sicrhau bod y clwydi'n cael eu paentio'n wyrdd tywyll o fewn tri mis o ddyddiad y caniatâd, petai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais.

Mynegwyd pryder ynghylch materion iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r clwydi 'pigog'. Hysbyswyd y Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro nad oedd hon yn ystyriaeth gynllunio. Fodd bynnag, roedd yn fater diogelwch y dylid mynd i'r afael ag ef gan yr ymgeisydd.

Cynigiwyd, felly, gan Y Cynghorydd Sir R.J. Higginson ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir P. Murphy bod cais DC/2017/00257 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y pedwar amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac y dylai amod 3 gael ei ddiwygio i atal y cyfeiriad at y clwydi'n cael eu symud nôl bum metr, fel y maent eisoes. Dylai Amod 3 gael ei ddiwygio hefyd i sicrhau bod y clwydi'n cael eu paentio'n wyrdd tywyll o fewn tri mis o ddyddiad y caniatâd.

Wedi pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2017/00257 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y pedwar amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac y byddai amod 3 yn cael ei ddiwygio i atal y cyfeiriad at y clwydi'n cael eu symud nôl bum metr, fel y maent eisoes. Byddai Amod 3 yn cael ei ddiwygio hefyd i sicrhau bod y clwydi'n cael eu paentio'n wyrdd tywyll o fewn tri mis o ddyddiad y caniatâd.

7. **<u>CAIS DC/2017/00444 - CYNNIG I DROSI YSGUBORIAU AMAETHYDDOL SEGUR I 2 ANNEDD. FFERM NEW HOUSE, FELINFACH, BRYNBUGA.</u>**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar ddatrys yr amodau lliniaru ystlumod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Swyddog Ecoleg y Cyngor Sir. Hefyd, yn amodol ar lwyddo i gael cyllid tuag at Gytundeb Adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy.

Wedi ystyried adroddiad y cais, cynigiwyd gan Y Cynghorydd Sir A. Davies ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Sir P. Murphy bod cais DC/2017/00444 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar ddatrys yr amodau lliniaru ystlumod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Swyddog Ecoleg y Cyngor Sir. Hefyd, yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy drwy gyfrwng .
Cytundeb Adran 106.

Wedi pleidleisio, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2017/00444 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar ddatrys yr amodau lliniaru ystlumod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Swyddog Ecoleg y Cyngor Sir. Hefyd, yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106.

**8. Penderfyniad apêl – White House, Gwehelog**

Derbyniasom dderbyn adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 11eg Mai 2017. Safle: White House, Heol Pant y Rheos, Gwehelog, Trefynwy.

Caniatawyd yr apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad sydd yn bodoli eisoes (ysgubor geifr) ynghlwm wrth dŷ-allan yn White House, Heol Pant y Rheos, Gwehelog, Trefynwy, yn unol â thelerau'r cais, Cyf. DC/2016/01221, dyddiedig 21 Hydref 2016, yn amodol ar yr amod canlynol:

1) Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a gymeradwywyd: 1238(2)/PLN/01 (Ysgubor Geifr fel y'i Hadeiladwyd); 1238(2)/PLN/02 (Cynllun Safle Ysgubor Geifr).

**9. Penderfyniad apêl - Tŵr Caxton, Rockfield.**

Derbyniasom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a gyfeiriai at benderfyniad apêl a wnaethpwyd yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 11eg Mai 2017. Safle: Tŵr Caxton, Fferm Newbolds, Rockfield, Trefynwy.

Caniatawyd yr apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio parthed 'Diwygiad ar gyfer caniatâd cynllunio presennol DC/2013/00623. Adsefydlu ac estyn cyn-borthdy hela i ddarparu annedd 1 i 3 ystafell wely i gynnwys adeiladu
tŷ-allan yn Nhŵr Caxton, Fferm Newbolds, Rockfield, Trefynwy. Yn dilyn gwrthod y cais am ddiwygiad ansylweddol yn Nhŵr Caxton, Fferm Newbolds, Rockfield, Trefynwy yn unol â thelerau'r cais, Cyf. DC/2016/01131, dyddiedig 27ain Medi 2016, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr atodlen i'r llythyr penderfyniad.

**The meeting ended at 3.30 pm.**